

# FestivalUK\*2022

COFNODION - CYFARFOD BWRDD I GYFARWYDDWYR FESTIVAL 2022 LTD (y "Cwmni" a "Festival")

Dydd Gwener 17 Medi 2021

## Lleoliad: Microsoft Teams

Y Cyfarwyddwyr ac Arsyllwyr a oedd yn bresennol:	Yn Bresennol:
<p>Y Fonesig Vikki Heywood DBE, Cadeirydd - (VH) (Annibynnol) Dr Hayaatun Sillem CBE (HS) (Annibynnol) Faraz Tasnim (FT) (Annibynnol) Liam Hannaway (LIH) (yn cynrychioli Gogledd Iwerddon) Dr Bridget McConnell (BM) (yn cynrychioli yr Alban) Priya Lakhani OBE (PL) (yn cynrychioli Lloegr) Roger Lewis (RL) (yn cynrychioli Cymru) Roger Mosey (RM) (annibynnol) Amali de Alwis MBE (AA) (Annibynnol) Rob Smith MBE (RS) (Annibynnol)</p> <p>Louise Hyland (LH) (Arsyllydd – Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) Gerwyn Evans (GE) (Arsyllydd - Llywodraeth Cymru) Emma Squire CBE (ES) (Arsyllydd - Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) Richard Walsh (RW) (Arsyllydd – Llywodraeth yr Alban) Marie Christie (MC) (Arsyllydd – Event Scotland) Paul Bush (PAB) (Arsyllydd – Event Scotland)</p>	<p>Ian Reid, Prif Weithredwr Grŵp y Pwyllgor Trefnu a Swyddog Cyfrifyddu (IR) Martin Green, Prif Swyddog Creadigol (MG) David Grady, Prif Swyddog Ariannol Grŵp y Pwyllgor Trefnu (DG) Caroline McCrory, Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni (CM) Phil Batty, Cyfarwyddwr Gweithredol (PB) Bea Hendry, Pennaeth y Rhaglen Greadigol (BH) Tace Jones, Cynorthwy-ydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth) (TJ) Laura O'Donnell, Rheolwr Prosiect Cynorthwyol (LO) Ben McKnight, Cyfarwyddwr Cyfathrebu (BMK) Hilary O'Shaughnessy, Pennaeth Comisiynu (HOS) Sam Hunt, Cyfarwyddwr y Rhaglen (SH)</p> <p>Ymddiheuriadau</p> <p>Yr Athro Mary Stuart CBE (MS) (Annibynnol) Dr Maggie Aderin-Pocock MBE, (MAP) Lucy Bailey, Uwch-gwnsler Cyfreithiol (LB)</p>

RHIF	EITEM	CYFRIF OLDEB DROS WEITHR EDU
	<b>Llywodraethu</b>	
<b>1a</b>	<p><b><u>Croeso</u></b></p> <p>Croesawodd VH bawb i'r cyfarfod, cadarnhaodd yr aelodaeth, yr arsyllwyr a'r rhai a oedd yn bresennol. Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth MAP a LB.</p> <p>Cyhoeddodd VH ymddiswyddiad Mary Stuart fel Cyfarwyddwr oherwydd cyfyngiadau amser.</p> <p>Diolchodd VH iddi am ei gwasanaeth a gofynnodd i'r Bwrdd gyflwyno awgrymiadau am Gyfarwyddwr newydd.</p> <p><b><u>Datganiadau ynghylch Buddiannau</u></b></p> <p>Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau uniongyrchol mewn cysylltiad â busnes y cyfarfod hwn.</p>	
<b>1b</b>	<p><b><u>Cymeradwyo'r Cofnodion a Materion sy'n Codi</u></b></p> <p>Cadarnhaodd VH nad oedd unrhyw faterion yn codi na chmau dros ben o'r cofnodion blaenorol.</p> <p>Nododd PB fân gywiriad i eiriad cofnodion mis Awst ynghylch Adolygiad IPA Gateway 3 Pwyllgor Cyllid yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dylid gwneud y cywiriad cyn cyhoeddi'r cofnodion.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Awst 2021.</p>	

# FestivalUK\*2022

<p>2</p>	<p><b><u>Rhaglen Greadigol: Cais i Gymeradwyo'r Gyllideb</u></b></p> <p>Gofynnodd VH i'r Bwrdd ystyried cynnig cyllido mewn cysylltiad â Gogledd Iwerddon a adolygwyd mewn Pwyllgor Archwilio a Risg un tro a gynhaliwyd ar 16 Medi. Cynhwyswyd copi o bapur Pwyllgor Archwilio a Risg ym mhapurau'r Bwrdd.</p> <p>Trosglwyddodd VH i MG i nodi cyd-destun strategol y cynnig, dylai PB ddarparu trosolwg o'r goblygiadau ariannol, a dylai FT grynhoi'r drafodaeth ar y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>Amlinellodd MG gyd-destun y cynnig i gynyddu dyraniad cyllid Gogledd Iwerddon.</p> <p>Amlinellodd PB fanylion y cynnig i gynyddu cyllideb Gogledd Iwerddon, a fyddai'n cyllido'r gwaith o ddarparu gosodiad ychwanegol Our Place in Space yng Nghaergrawnt ac elfen ddigidol gadarn gan ddefnyddio Realiti Estynedig i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ehangach.</p> <p>Nododd FT fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi trafod y cynnig yn helaeth a'i fod yn cefnogi'r dull gweithredu, ond roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn dymuno gweld dadansoddiad risg ychwanegol o dreuliau annisgwyl ar draws y 10 prosiect er mwyn rhoi safbwynt llawn.</p> <p>Mynegodd ES gefnogaeth yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon tuag at ehangu ar brosiect Gogledd Iwerddon. Teimlai Pwyllgor Cyllid yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod y sefyllfa bresennol o ran treuliau annisgwyl yn iach ond roedd yn cefnogi gwaith craffu ychwanegol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>Cynigiodd aelodau'r Bwrdd eu cefnogaeth ond gwnaethant nodi bwysigrwydd sicrhau diwydrwydd dyladwy a chroesawu'r dull a ddefnyddir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd ddirprwyo adolygiad terfynol o'r penderfyniad i gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg eithriadol y bydd VH yn bresennol ynddo cyn y gellid cyflawni'r gymeradwyaeth derfynol.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU:</b> Anfon e-bost at aelodau'r Bwrdd i roi gwybod iddynt am y penderfyniad yn dilyn Pwyllgor Archwilio a Risg eithriadol (PB)</p>	
<p>3</p>	<p><b><u>Cymeradwyaeth: Brand</u></b></p> <p>Cyflwynodd MG a PB frand newydd Festival gan gynnwys yr enw, y logo a'r is-bennawd.</p> <p>Amlinellodd MG a PB fod dull cynhwysfawr a graddol wedi ei fabwysiadu i ymchwilio, profi a llywio'r cyfeiriad teithio.</p> <p>Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Brand wedi ei gymeradwyo gan y Pedair Gwlad.</p> <p>Gwahoddodd VH sylwadau.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd y Brand gyda chefnogaeth lawn a llongyfarchiadau.</p>	
<p>4</p>	<p><b><u>Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyhoeddiad Rhaglen Mis Hydref</u></b></p> <p>Rhoddodd BMK yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd cynllun y comisiynau a fydd yn amlapio lansiad y Brand. Siaradodd BMK drwy amcanion cyhoeddiad rhaglen mis Hydref.</p> <p>Mae'r strategaeth Cyfathrebu a Marchnata Llawn yn cael ei datblygu a bydd yn cael ei rhannu â'r Bwrdd, ond bydd y ddogfen yn ddeinamig ac yn parhau i fod yn fyw oherwydd y bydd angen pifodi wrth i'r prosiect symud ymlaen</p>	

# FestivalUK\*2022

	<p>Gwahoddodd VH sylwadau:</p> <p>Gofynnodd HS i BMK roi cyfeiriad clir i'r Cyfarwyddwyr ar yr hyn y gallant ei wneud i ysgogi eu rhwydweithiau.</p> <p>Gofynnodd LH sut y bydd gwasg Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan. Nododd BMK yr angen am arbenigedd a gwybodaeth leol a bod tîm Festival yn gweithio gydag Atkin PR i wneud hyn.</p> <p>Gofynnodd RM am roi sesiwn gyfarwyddo a nodiadau allweddol / pwynt siarad i'r Cyfarwyddwyr cyn lansiad y rhaglen.</p> <p>Dywedodd RL fod Cymru wedi trefnu sesiwn gyfarwyddo drawsbleidiol i'w chynnal ar 20 Hydref. Cytunwyd i gysylltu â MG cyn hyn.</p> <p>Gofynnodd AA am y ffordd orau o rannu cysylltiadau / rhwydweithiau perthnasol â'r tîm Comisiynau.</p>	
5a	<p><b><u>Trosolwg o'r Sgwrs Greadigol a Rhyngwladol</u></b></p> <p>Cyflwynodd SH drosolwg o'r 'Sgwrs Greadigol' a'r gwaith Rhyngwladol.</p> <p>Nododd VH y gwerth o weld rhywfaint o'r gwaith hwn yn rhan o lansiad y rhaglen fel y gall pobl ddeall cyd-destun rhyngwladol Festival.</p> <p>Nododd PL fod addysg yn farchnad fawr a darniog a chynigiodd gyfarfod â'r Cyfarwyddwyr i fynd drwy'r gwaith hwn yn fanylach er mwyn manteisio ar yr wybodaeth sydd yn y Bwrdd.</p> <p>Nododd HS fod angen 'Sgwrs Greadigol' gysylltiedig yn y gofod addysg a chynnwys teuluoedd.</p> <p><b>CAM GWEITHREDU:</b> dylid trefnu sgysiau dilynol ar Ddysgu a Chyfranogi gyda Chyfarwyddwyr y Bwrdd cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref.</p>	
6	<p><b><u>Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cytundeb Comisiynu Llawn gan gynnwys Statws Paramedrau y Prosiect</u></b></p> <p>Cadarnhaodd VH benderfyniad y Bwrdd, sef na fydd unrhyw daliadau eraill yn digwydd nes bod contractau wedi eu llofnodi.</p> <p>Rhoddodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf ar y statws contractio ar draws y 10 comisiwn. Cytunir ar y mwyafrif o'r contractau mewn termau cyfreithiol, gan weithio ar y manylion sydd yn yr amserlenni.</p> <p>Oherwydd nad oedd Unrhyw Fusnes Arall, caeodd VH y cyfarfod.</p>	
<b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 22 Hydref 2021 (9.30am – 12.30pm)</b>		